

Cyngor ar Gyfeiriadau

Mae cyfeirio a chyfeirio yn y testun yn ffordd i chi **gydnabod** ffynhonnell wreiddiol y wybodaeth.

Mae hyn yn bwysig oherwydd mae'n helpu i **osgoi llên-ladrad** a thorri hawlfraint.



Wrth i chi symud ymlaen trwy'ch gyrfa academaidd, bydd cyfeirio'n dal i fod yn bwysig. Mae'n well **ymarfer yn awr** a'i gael yn gywir.

Mae pob ysgol yn y brifysgol yn defnyddio **arddulliau neu ddulliau gwahanol** o gyfeirio, felly ni fydd y ddogfen hon yn

cynnwys canllaw ar sut i gyfeirio'n gywir ond yn cynnig awgrymiadau ar sut i gadw golwg ar eich holl gyfeiriadau.

Edrychwch ar arweiniad y llyfrgell **ar arddull cyfeirio** i weld pa ysgol sy'n defnyddio pa arddull cyfeirio.

- **Cadwch gofnod** o bopeth yr ydych wedi ei ddarllen gan gynnwys yr awdur, y cyhoeddwr, y dyddiad a'r lleoliad cyhoeddi, yn ogystal â'r tudalennau yr ydych wedi eu darllen.

- Cadwch y rhestrau hyn yn nhrefn pwnc, aseiniad neu fodiwl er hwylustod.
- Wrth weithio ar aseiniad, **cadwch** adran ar ddiwedd y ddogfen ar gyfer ychwanegu cyfeiriadau pan fyddwch yn dod o hyd i ddeunydd perthnasol ac yn ei ddefnyddio.
- Gallwch ddefnyddio **meddalwedd rheoli cyfeirio** (gweler ar-lein) ond byddwch yn ofalus! NID ydynt yn berffaith ac yn cael pethau'n anghywir yn aml. Cofiwch wirio ac ailwirio eu cyfeiriadau.
- Dylid rhoi **cyfeiriad yn y testun** at unrhyw ddatganiad nad yw'n wybodaeth wreiddiol neu gyffredinol, a dylid cynnwys cyfeiriad yn y **rhestr gyfeiriadau**, gan ddilyn arddull eich ysgol.
- Os byddwch yn argraffu erthyglau mewn cyfnodolion neu bapurau, gallech ysgrifennu crynodeb byr o'r papur a'r cyfeiriad a chyfeiriadau yn y testun ar gerdyn mynegai a'i **styffylu** wrth yr erthygl er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol.
- **Cadwch allbrintiau o erthyglau o gyfnodolion mewn ffolder** neu leoliad penodol arall. Bydd hyn yn eich helpu i ddod o hyd i bapurau penodol pan fydd angen.
- Yn bwysicaf oll, mae cyfeirio'n sgil angenrheidiol yn y byd academaidd, rhaid ei feistroli os ydych yn gwneud gradd. **Cofiwch ymarfer**. Mae camgymeriad yn eich cyfeiriadau'n gallu cael effaith fawr ar eich marc.